OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2022 No. 1156

Gorchymyn Iechyd Anifeiliaid (Compartmentau Dofednod a Chrynoadau Anifeiliaid) (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2022

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Iechyd Anifeiliaid (Compartmentau Dofednod a Chrynoadau Anifeiliaid) (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2022.

(2) Mae'n gymwys o ran Cymru a daw i rym ar 1 Rhagfyr 2022.

Diwygio Gorchymyn Compartmentau Dofednod (Ffioedd) (Cymru) 2010

2.—(1) Mae Gorchymyn Compartmentau Dofednod (Ffioedd) (Cymru) 2010(**1**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn y tabl yn yr Atodlen, ym mhob lle y mae'n digwydd, hepgorer "+ TAW".

Diwygio Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2018

3.—(1) Mae Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2018(**2**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn nhestun Saesneg erthygl 2, yn y diffiniad o "collection centre", yn lle "a premises" rhodder "premises".

(3) Yn lle'r Atodlen rhodder yr Atodlen a nodir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Darpariaeth drosiannol

4. Nid yw'r diwygiadau a wneir gan erthyglau 2 a 3 yn cael unrhyw effaith mewn perthynas ag unrhyw ffi a godir mewn perthynas â chais sy'n dod i law Gweinidogion Cymru cyn i'r Gorchymyn hwn ddod i rym.

Lesley Griffiths
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru

8 Tachwedd 2022

(**1**) O.S. 2010/1781 (Cy. 170).
(**2**) O.S. 2018/645 (Cy. 119).